**Bitesize**

# Nodweddion arddull

| | |
|---|---|
| **Y DDRAIG** | Pwy ydych chi a beth ydych chi'n gwneud yn fy ffau? Hisht! Mae gen i gerdd i'w gorffen… ond dyw'r geiriau ddim yn dod. |
| **CYFLYTHRENIAD** | Ti eisiau help? Dw i'n gallu cyflythrennu a gwneud y gerdd yn grêt. |
| **Y DDRAIG** | Cer o'ma, wy'n brysur. |
| **CYFLYTHRENIAD** | Ond bod mewn cerdd yw fy mhwrpas i, heb hynny byddaf yn diflannu… |
| **Y DDRAIG** | Wyt ti'n fyddar? Cer o 'ma nawr! |
| **CYFLYTHRENIAD** | Ond clyw fi'n cyrraedd mewn cerdd i roi cic i bob clust! Y fi sy'n gwthio'r gerddoriaeth mewn i'r geiriau! |
| **Y DDRAIG** | Cer o 'ma |
| **CYMHARIAETH** | Felly o'n i feL, fi yw cymhariaeth *like*, fi fel, ti mod fel 'na, na ddim fel hwnna, ond fel hyn, ti 'mod fel, be fi'n meddwl, fel? *Innit*, *tidy* fel. |
| **Y DDRAIG** | Oes 'na arwydd ar fy ffau sy'n gwahodd pob ffŵl i mewn o'r stryd? |
| **CYMHARIAETH** | *Chill out* myn achos fi'n *totes amazeballs*, *innit* fel? A ti hollol fel llosgfynydd ar fin ffrwydro. Angen i ti fod mwy fel bloc o iâ, a tshilo mas fel! |
| **Y DDRAIG** | Eh? |
| **CYMHARIAETH** | Bydd cerdd ti'n lej os ti'n gadel fi mewn, helpu ti drosglwyddo neges ti, fel. Drwy ddweud bod rhywbeth fel rhywbeth arall, mae hwnna'n helpu ti neud llun yn y geiriau, *innit*.. |
| **Y DDRAIG** | Na, na, na .. dyw hwn ddim yn mynd i helpu, mae angen rhywbeth arall…. fel! |
| **CYMHARIAETH** | Aaaaa, ti'n dallu fi fel… |
| **TROSIAD** | W, falle taw nag fan hyn wy fod te ife? Achos sai' cweit yn teimlo'n fi fy hunan heddi, pan 'wy'n fi fy hunan, 'wy fel arfer yn rhywbeth arall. |

 **© Hawlfraint 2016**

**Y DDRAIG** Mae môr o ansicrwydd yn dy lygaid ac mae dy eiriau yn labyrinth dryslyd.

**TROSIAD** Wwww, ie! ’Na pwy ’ŷf fi. Trosiad ydw i... O diolch, chi'n graig o garedigrwydd.

**Y DDRAIG** Sôn am garreg!

**CYFERBYNIAD 1** Naci tad, mae’n blasu’r sur!

**CYFERBYNIAD 2** Gad dy gelwydd myn yffach i, mae’n blasu’n felys!

**CYFERBYNIAD 1** Ha! Melys? Beth wyt ti'n falu...?

**Y DDRAIG** Reit! ’Na fe! Weloch chi ddim o’r arwydd tu allan i’r ffau?

**CYFERBYNIAD 1** Ella fedri di setlo’r ddadl 'ma. Blasa hwn. Dw i’n deud fod y fferins yma’n sur, a fi sy’n iawn de? Ia, ni di cyferbyniad

**CYFERBYNIAD 1** ’Ry’n ni’n ddou hanner o’r un peth!

**Y DDRAIG** Dau beth o’r un *beth*? ’Smo chi’n gwneud dim synnwyr o gwbl. Nawr, esgusodwch fi. Tasen i ond yn gallu canfod y gair ’rwy ei angen…

**PERSONOLIAD** Falle taw fi yw’r un i dy helpu!

**Y DDRAIG** Esgob annwyl! Beth sy’n digwydd ’ma?

**PERSONOLIAD** Fi yw personoliad gallaf ddod â phethau bob dydd yn fyw, drwy eu cymharu gyda phethau sy’n gysylltiedig â phobl. Ac achos bod gen i goesau a breichiau, mae gen i hawliau fel pawb arall, felly symud draw, dw i eisiau gwylio fy hoff raglen deledu: seremoni’r cadeirio.

**Y DDRAIG** O! Mae hyn yn anobeithiol… ond arhoswch! Beth yw hyn? Mae’r cyfan fel pe bai’n yn dod ynghyd! Mae ’na gerdd yn ffurfio, ac mae’n llawn cyflythrennu, cymariaethau, trosiadau, cyferbynnu! Anhygoel! Mae’n rhyfeddol sut mae cerdd yn dod at ei gilydd… o unman weithiau!

**NODWEDDION** Aaa!

**Y DDRAIG** Rwy'n ddraig ddewr llawn o ddoniau
â meddwl miniog fel cledd,
mae fy ngheg yn ffwrn o fflamau
ond dan y gwres mae calon oer
yma'n unig ym mreichiau fy nghadair.


© Hawlfraint 2016